

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed  
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11eg Dachwedd 2019

Presennol- Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Neil Pringle,  
Janet Charlton, Dyfed Jones, Cyng Elisabeth Roberts Caerwyn Roberts, Clerc.  
Ymddiheuriad - Nick Corney.

Datgan diddordeb – Dim datganiad o ddiddordeb

Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 14eg Hydref 2019.

Materion yn codi

(1)Yr Heddlu

Cyfeiriodd y clerch at y sylwadau canlynol gan y SCHG Jonathan Thomas;  
Mae pryder yn lleol fod lladron wedi torri mewn i rhai safleoedd yn ddiweddar gyda toiledau  
y prif darget a hefyd rhai busnesau. Mae'r heddlu'n parhau i archwilio ynglun a'r mater

[1.1] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair.

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.2] Rheolaeth Cae Llan

Y clerch i drefnu dyddiad cyfleus ar gyfer cyfarfod gyda Neil Pringle, Dyfed Jones a'r Cyng  
Elisabeth Roberts.

[1.3] Colofn Golau Ffordd yr Orsaf

Dywedodd y clerch nad oedd ateb wedi ei dderbyn gan APCE i'r ebost diweddara yn dilyn  
amrwy ebost eraill a anfonwyd ynglun a'r colofn.

[1.4] Siop Sglodion/Sbwriel

Deallwyd fod pridd wedi ei roi i guddio'r sbwriel. Cytunodd y Cyng. E Roberts i wneud  
ymholiadau pellach.

[1.5] Gwelliannau/Mynwent Erw Hedd

Nodwyd bod y mater yn parhau

[1.6] Cynllun Modur Cymunedol

Cyfeiriodd y clerch at y wybodaeth ganlynol; Bydd y cynllun yn gweithredu o Feddygfa Betws-y-  
Coed a Cerrig-y-Drudion lle bydd modur sydd yn gyfleus ar gyfer cadair olwyn yn rhannog ar  
gyfer pobl na fedr drefnu cludiant eu hunain i weld y meddyg. Bydd taliad bychan o £0.25 y  
filltir ond ddim mwy na cyfanswm £5.00 am y defnydd.

[1.7] Mainc / Llwybr Cae Llan

[a] Nodwyd sylwadau gan Gyngor BS Conwy, gan fod y llwybr yn llawer is na'r cae nad oedd  
yn bosib yn anffodus datrys y broblem heb gostau sylweddol.

[b] Nodwyd bod y fainc wedi ei thrwsio.

Y brif Agenda

[1.8] Materion Cynllunio

Dymchwel estyniadau cefn a chodi estyniad unllawr yn y cefn.

Bryn Conwy, Ffordd y Rheithordy, Betws-y-Coed

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[1.9] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddosbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Hydref 2019

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddosbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Hydref 2019.

[2] Cyngor BS Conwy Gwasanaethau Cynaliadwy

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfarfod gyda swyddogion y Cyngor Sir a fynychwyd ganddo ef a'r clerc, i drafod cynigion trosglwyddo cyfrifoldeb am y cae chwarae ym Mhentre' Du yn ogystal ar ddau doiled yn y pentref, neu efallai i'r Cyngor Cymuned ystyried cyfraniad ariannol tuag at y ddau wasanaeth.

Yn absenoldeb unrhyw wybodaeth gan y Cyngor Sir ynglŷn â chostau ayb, penderfynwyd gohirio'r mater hyd at gyfarfod y Cyngor Cymuned ym mis Ionawr.

[2.1] Camerâu Cylch Agos

Rhoddyd sylw i gais gan Gyngor BS Conwy am gefnogaeth ariannol ar gyfer camerâu yn Pont-y-Pair a hefyd ar briffordd yr A5. Penderfynwyd gan fod ansicrwydd ynglŷn â gwneud cefnogaeth ariannol tuag at wasanaethau eraill nad oedd yn bosib ar hyn o bryd cynnig cefnogaeth.

[2.2] Sedd Wāg y Cyngor

Cyfeiriodd y clerc at gais gan Mrs Barbara Drake, Ty'n y –Fron, Lon Muriau, Betws-y-Coed i ymuno a'r Cyngor fel aelod cyfethol.

Penderfynwyd gwahodd Mrs Drake yn aelod cyfethol o'r Cyngor.

[2.3] Gwaith Atgyweirio Rheilffordd Dyffryn Conwy

Nodwyd o ganlyniad gwaith trwsio angenrheidiol y bydd reilffordd wedi cau o 9.30 y.h. ar y 22ain Dachwedd hyd i 10.30 y.b. ar y 15fed Hydref

[2.4] Gwobrau Chwaraeon BS Conwy

Cytunodd y Cyng Neil Pringle I gynrychioli'r Cyngor Cymuned yn y seremoni gwobrwyo yn Venue Cymru Llandudno dydd Gwener 22ain Dachwedd am 7.30 y.h.

[2.5] Nodwyd y wybodaeth canlynol

[a] Cyngor BS Conwy Gwasanaeth Bws Hyblyg.

[b] Guto Bebb AS, Llythyr yn datgan ei ymddeoliad

Cadeirydd \_\_\_\_\_